Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

INF188/5W

# Gyrwyr loriau a/neu fysiau gyda diabetes sy'n cael ei drin gan ddeiet yn unig

## Pryd mae angen i chi ddweud wrthym?

**Cadwch y daflen hon yn ddiogel fel eich bod yn gallu cyfeirio ati yn y dyfodol.**

**Os ydych yn gyrru lori neu fws, does dim angen i chi ddweud wrthym os yw eich diabetes yn cael ei drin gan ddeiet yn unig a'ch bod yn rhydd o'r cymlethdodau a restrir dros y ddalen.**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

11/16

Bydd rhai pobl gyda diabetes yn datblygu problemau cysylltiedig allai effeithio ar eu gyrru.

### Beth sydd angen i chi ddweud wrthym ni

Yn ôl y gyfraith rhaid i chi ddweud wrthym os yw unrhyw un o'r canlynol yn gymwys i chi:

- Eich bod yn dechrau triniaeth gyda thabledi
- Eich bod yn dechrau triniaeth gyda sulphonylurea neu glinide.
- Eich bod yn dechrau triniaeth gydag inswlin.
- Eich bod yn cael triniaeth laser i'r naill lygad **neu'r** llall.
- Eich bod yn cael problemau â'ch golwg yn y naill lygad **neu'r** llall. Yn ôl y gyfraith rhaid i chi allu darllen rif plât car o 20 metr. Hefyd, mae'n rhaid bod eich meddyg neu optegydd heb ddweud wrthych fod eich golwg cyfredol yn waeth nag 6/12 (0.5 degol) ar raddfa Snellen. Os ydych yn ansicr, dylech gysylltu â'ch meddyg neu optegydd. Os oes angen, gallwch wisgo sbectolau neu lensys cywirol i gyrraedd y ddwy safon.

  **Nid yw'n dderbyniol i ddefnyddio dyfais bioptic (telesgop) wrth yrru yn Prydain Fawr.**
- Mae angen i chi hefyd fodloni safonau gweledol uwch sy'n berthnasol i gais am yrru galwedigaethol.
- Rydych yn datblygu unrhyw broblemau gyda chylchrediad neu'r teimlad yn eich coesau neu'ch traed sy'n golygu bod yn rhaid i chi yrru rhai mathau o gerbydau yn unig, er enghraifft, cerbydau awtomatig, neu gerbydau gyda sbardun/ brêcs yn cael eu rheoli â llaw. Rhaid i hyn fod wedi cael ei nodi ar eich trwydded yrru.
- Bod unrhyw gyflwr meddygol presennol yn gwaethygu neu eich bod yn datblygu unrhyw gyflwr arall allai amharu ar eich gallu i yrru'n ddiogel.

**Er lles diogelwch y ffordd, rhaid i chi fod yn sicr eich bod yn gallu rheoli cerbyd modur yn ddiogel bob amser.**

### Sut i roi gwybod i ni

Os bydd y meddyg, arbenigwr neu optegydd yn dweud wrthych am roi gwybod i ni am eich cyflwr, bydd angen i chi lenwi holiadur meddygol **VDIAB1I** am ddiabetes.

Mae holiaduron ar gael i'w lawrlwytho o **www.gov.uk/driving-medical-conditions**

Mae holiaduron ar gael i'w harchebu wrth ffonio ni ar 0300 790 6806

Ysgrifennu at:
**Grŵp Meddygol y Gyrwyr**
**DVLA**
**Abertawe**
**SA99 1TU**

### Cyfeiriadau defnyddiol

**Diabetes UK Cymru**
Tŷ Argyle
Pont y Castell
Heol Dwyrain y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AB

**Diabetes UK Scotland**
Savoy House
140 Sauchiehall Street
Glasgow G2 3DH

**Diabetes UK Central Office**
Macleod House
10 Parkway
London
NW17AA

**Diabetes UK**
Gwefan: **www.diabetes.org.uk**

**Dewch o hyd i wybodaeth am wasanaethau ar-lein DVLA**
**Ewch i:** www.gov.uk/browse/driving